

Dilynwch y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda

Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwylt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Please follow The Countryside Code

Respect • Protect • Enjoy

- Be safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Be considerate to other people



Image © Aardman-Animation Ltd 2004



Mwynhewch eich ymweliad
Enjoy your visit



Hiraethog



Troeon cerdded
Waymarked walks

Angen cysylltu a ni?

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig 01490 420463
Dŵr Cymru - www.dwrcymru.co.uk
www.hiraethog.org.uk
www.conwy.gov.uk
www.ccw.gov.uk
www.forestry.gov.uk/cymru - 0845 604 0845
www.denbighshire.gov.uk
www.wildlifetrust.org/northwales - 01248 351541

Need to contact us?

Llyn Brenig Visitor Centre 01490 420463
Welsh Water - www.dwrcymru.co.uk
www.hiraethog.org.uk
www.conwy.gov.uk
www.ccw.gov.uk
www.forestry.gov.uk/wales - 0845 604 0845
www.denbighshire.gov.uk
www.wildlifetrust.org/northwales - 01248 351541



Gors Maen Llwyd

Mae'r cynefin gweundir grug a'r orgors yn rhan o Fynydd Hiraethog sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn hanesyddol, roedd y gweunydd yn cael eu rheoli ar gyfer saethu grugiar. I wella cyflwr y gweundir rydym wedi lleihau'r nifer o ddefaid sy'n pori ac mae stribedi o'r grug wedi'u torri i ganiatáu i'r twf ifanc adfywio. Mae'r Rugiar Goch a'r Rugiar Ddu yn bwydo ar egin y grug ifanc yn bennaf. Mae'r Rugiar Goch yn byw mewn gweundir agored, ac mae'r Rugiar Ddu yn byw ar weundir yn agos at goed, lle byddant yn clwydo. Prynodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Gors Maen Llwyd gan Dŵr Cymru yn 1988.

www.wildlifetrust.org.uk/northwales



Gors Maen Llwyd

This heather moorland and blanket bog habitat is part of the Mynydd Hiraethog Site of Special Scientific Interest. Historically the moors were managed for grouse shooting. To improve the condition of the moorland sheep grazing has been reduced and strips of heather have been cut with a flail to allow young growth to regenerate. Red and Black Grouse feed mainly on young heather shoots. Red Grouse inhabit open moorland, whereas Black Grouse live on moorland close to trees, where they roost. Gors Maen Llwyd was purchased from Welsh Water by North Wales Wildlife Trust in 1988.

www.wildlifetrust.org.uk/northwales

Hafod Lom

Ers y canol oesoedd, canolbwynt ffermio uwchdir yng Ngogledd Cymru oedd yr Hafotai.



Anheddau bychain oedd y rhain, ac roedd y ffermwyr a'r bugeiliaid yn byw ynddynt yn ystod misoedd yr haf pan roeddent yn dod â'r gwartheg a'r defaid i bori ar y brynau. Hafod Lom yw'r enwocaf o'r Hafotai lleol, yn dyddio yn ôl i o leiaf 1334. Mae'n cael ei grybwyll mewn cerddi a straeon tylwyth teg a daeth yn

gysylltiedig â Nosweithiau Llawen, lle byddai'r bugeiliaid a'r ffermwyr yn ymuno â'i gilydd i rannu cerddoriaeth, caneuon a barddoniaeth.

Hafod Lom

Since medieval times, upland farming in North Wales was based around Hafotai. These were dwellings which were occupied in the summer months by farmers and shepherds, when they brought their herds of cattle and sheep to graze in the hills. Hafod Lom is the best known of the local Hafotai, dates back to at least 1334. It is mentioned in poems and fairy stories and became associated with Nosweithiau Llawen, 'Merry Evenings', where shepherds and farmers joined together to share music, song and poetry.



Coedwigaeth

Mae Dŵr Cymru yn rheoli 377 hectar o'r goedwig o amgylch Llyn Brenig. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gweithredu cynllun gwella coetiroedd tri deg mlynedd sy'n trawsnewid y blanhigfa fytholwyrdd ddwys bresennol, a chyflwyno amrywiaeth eang o goed llydan ddeiliog ac ehangu'r ardaloedd agored ger y nentydd sy'n llifo i'r llyn. Rydym eisoes yn cofnodi gwelliannau i fioamrywiaeth yr ardal. Wrth i chi archwilio'r stad, cofiwch fod hon yn goedwig weithredol ac ufuddhewch i unrhyw arwyddion a rhybuddion sy'n rhoi gwybod am beryglon.

Forestry

Welsh Water manage 377 hectares of woodland surrounding Llyn Brenig. We are currently implementing a thirty year woodland improvement scheme which is transforming the existing dense evergreen plantation, introducing a variety of broad-leaved trees and widening the open areas beside streams that run into the lake. We are already recording improvements to the biodiversity of the area. As you are exploring the estate, please remember that this is an operational forest and obey any signs and notices warning you of hazards.



Llyn Brenig

Mae'r llyn hyfryd hwn – cronfa ddŵr mewn gwirionedd - yn un o'r ardaloedd mwyaf o ddŵr mewndirol yng Nghymru gyda pherimetr o 9.5 milltir/15 cilometr. Adeiladwyd y gronfa, sy'n helpu i reoli'r cyflenwad dŵr i'r Afon Ddyfrdwy, rhwng 1973 a 1976. Mae'r gronfa 45m o ddyfnder ger y tŵr gwagio a chynhwysedd o 61,500 megalitr, sy'n cael ei ail-lenwi o ddalgylch 2,200 hectar. Rydym yn croesawu dros 160,000 o ymwelwyr i'r safle bob blwyddyn ac fel un o'r prif bysgodfeydd â phlu yn y DU, rydym yn cynnal cystadlaethau rhyngwladol.

Llyn Brenig

This beautiful lake – actually a reservoir - is one of the largest areas of inland water in Wales with a perimeter of 9.5 miles / 15km. Built between 1973 and 1976, the reservoir helps to regulate the water supply to the River Dee. The reservoir is 45m deep at the draw off tower and has a capacity of 61,500 megalitres, refilled from a 2,200 hectare catchment. We welcome over 160,000 visitors to the site each year and as one of the premier fly fisheries in the UK, host international competitions.

Cronfa Ddŵr Alwen

Adeiladwyd y gronfa ddŵr a'r argae rhwng 1909 a 1921 i ddarparu dŵr trwy bibell i Benbedw. Adeiladwyd 'pentref' o adeiladau pren dros dro, yn ogystal ag Ysgol, i letya'r llu o weithwyr a'u teuluoedd. Mae'r gronfa ddŵr heddiw yn darparu oddeutu 5 miliwn galwyn o ddŵr y diwrnod i gartrefi ledled gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae Llwybr Alwen bellach yn mynd o amgylch Y Gronfa Ddŵr ac mae'n addas i'r teulu i gyd. Dyma lwybr newydd 7 milltir / 15.5 cilometr, sydd wedi ei arwyddo, ar gyfer cerddwyr a beicwyr i'w galluogi i grwydro'r ardal hardd hon. Fel rydych yn teithio trwy'r goedwig ac ar hyd glannau'r llyn, edrychwch am fywyd gwyllt prin fel y rugiar ddu, gweirlöyn mawr y waun a'r wiwer goch.


Mae llên gwerin yr ardal yn sôn am y fuwch fraith hud – a oedd yn fuwch wen a phinc a chanddi gyflenwad diddiwedd o lefrith – nes i wrach ddrwg ei godro i ogr!

Alwen Reservoir

The reservoir and dam were constructed between 1909 and 1921 to provide piped water to Birkenhead. A temporary wooden 'village' with a school was built to house an army of workers and their families. Today the reservoir supplies water to homes across north-east Wales producing about 5 million gallons of water a day.

The Alwen reservoir is now encircled by the family-friendly Alwen Trail - a new 7 mile / 15.5km way-marked route for walkers and cyclists to explore this beautiful area. As you travel through the forest and along the shore of the lake look out for rare wildlife such as Black Grouse, Large Heath Butterfly and Red Squirrel.

There are folktales associated with this valley too – like the story of the Fairy Freckled Cow - a white and pink freckled cow which had an endless supply of milk - until a wicked witch milked her into a sieve!



Cyswllt Clocaenog

Mae'r llwybr cerdded cyfeirbwyntiedig yma yn eich arwain drwy Goedwig Clocaenog o llyn Brenig i Nilig. Ar hyd y ffordd, mae'n cysylltu gyda llwybr troed hirdeithiog Mynydd Hiraethog o Bodfari i Gerrigydrudion, sy'n rhoi'r opsiwn o ragor o lwybrau cerdded cyfeirbwyntiedig yn y goedwig a thu hwnt. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn nhafn Clocaenog sydd ar gael o Ganolfan Ymwelwyr Brenig a'r canolfannau croeso.

Fe reolir Coedwig Clocaenog gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ymestyn dros 6000 hectar (100 cilometr sgwâr). Mae'n goedwig fasnachol gyda digon o le i fwynhau gwahanol weithgareddau. Mae'n gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt gan gynnwys y boblogaeth fwyaf o wiwerod coch yng Nghymru.

Clocaenog link

This waymarked trail takes you through Clocaenog Forest from Llyn Brenig to Nilig. Along the way it connects with the Hiraethog and Denbigh Moors long distance footpath from Bodfari to Cerrigydrudion giving the option of further waymarked walks within the forest and beyond. More information can be found in the Clocaenog leaflet available from the Brenig Visitor Centre and tourist information offices.

Clocaenog Forest is managed by Forestry Commission Wales on behalf of the Welsh Assembly Government. The forest extends to over 6000 hectares (100 square km). It is a productive working forest with plenty of space for recreation and quiet enjoyment. It is home to a wide variety of wildlife including the largest population of Red Squirrels in Wales.

Troeon cerdded Hiraethog walking trails

Taith Llyn Brenig
 Dilynwch y llwybr hwn o amgylch un o gronfeydd mwyaf Cymru, a gweld golygfeydd godidog Hiraethog.
pellter: 15km/9.5m **amser:** 4 awr
anhawster: cymedrol **dringfa:** 120m/400tr

Llyn Brenig trail
 Follow this popular trail around one of the largest reservoirs in Wales, taking in fantastic views across Hiraethog.
distance: 15km/9.5m **time:** 4 hours
difficulty: moderate **climb:** 120m/400ft

Taith Alwen
 Cerddwch y llwybr brat a phleserus hwn drwy nifer o gynfeydd coetir, sy'n gartref i sawl rhywogaeth o fywyd gwylt.
pellter: 11.5km/7m **amser:** 3 awr
anhawster: cymedrol **dringfa:** 90m/300tr

Alwen trail
 An enjoyable and pleasant walk through a variety of woodland habitats.
distance: 11.5km/7m **time:** 3 hours
difficulty: moderate **climb:** 90m/300ft

Taith y ddau llyn
 Os hoffech fynd ar daith hirach, dilynwch y llwybr o amgylch Llyn Brenig a Chronfa Ddŵr Alwen i gael gweld y golygfeydd trawiadol ac amrywiol.
pellter: 22.5km/14m **amser:** 5 awr
anhawster: cymedrol **dringfa:** 200m/650tr

Two lakes trail
 If you want to try a longer walk, you can take the route around both reservoirs, taking in the spectacular views and diverse scenery of both Llyn Brenig and the Alwen Reservoir.
distance: 22.5km/14m **time:** 5 hours
difficulty: moderate **climb:** 200m/650ft

A yw'r teithiau yma yn iawn i chi? Mae'r tywydd yn gallu newid yn gyflym ac nid yw'n debygol y bydd ffonau symudol yn gweithio - felly gwnewch yn siŵr bod gennych ddillad cynnes, dillad ar gyfer tywydd gwlyb, bwyd a diod. I'r bobl hynny gyda phroblemau symudedd, nodwch bod wyneb y llwybrau'n anwastad ac mae ellydd i'w dringo a chamfeydd i'w croesi.

Are these walks right for you? The weather can change suddenly and mobile phones are unlikely to work - so be sure to carry warm clothing, waterproofs, food and drink. For those with mobility problems note that the walks have uneven surfaces, some uphill climbs, and a couple of step-over stiles.

	Taith Llyn Brenig Llyn Brenig trail		Cyfleusterau i'r anabl Disabled facilities
	Taith Alwen Alwen trail		Gwylfan Viewpoint
	Taith y ddau llyn Two lakes trail		Coetir Forest woodland
	Llwybr archaeolegol Archaeological trail		Prifffordd A road
	Llwybr natur Nature trail		Ffordd eilradd B road
	Parcio Parking		Ffordd fach Minor road
	Toiletau Toilets		Dim cerbydau No vehicle access



Llwybr Archeolegol
 Mae nifer o safleoedd archeolegol pwysig yma. Darganfuwyd tystiolaeth o helwyr Oes y Cerrig yn chwilio am fwyd, ac yn ddiweddarach bu pobl yr Oes Efydd yn byw yma a chreuwyd mynwent fawr gyda lluo o gofodellau claddu a defodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dalen fanwl 'Dyn yn Brenig' sydd ar gael o'r ganolfan ymwelwyr. Gosodwyd arwyddion i ddangos y llwybr 2 filltir o hyd, o faes parcio gogleddol y llyn.

Archaeological Trail
 There are a number of important archaeological sites here, including evidence of Stone Age hunters searching for food and later occupation by Bronze Age people who created a great cemetery of ritual and burial monuments. You can find more information in the detailed leaflet 'Man at Brenig' which is available from the visitor centre. Explore the two mile trail by following the marker posts from the car park at the North end of the lake.

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig
 Yng Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig mae yna Gaffi, siop, pwynt gwybodaeth ac arddangosfa am adeiladu'r gronfa a'r bywyd gwylt lleol. Y tu allan mae safleoedd picnic ac ardal chwarae i blant.

Llyn Brenig Visitor Centre
 Llyn Brenig Visitor Centre has a cafe, shop, information point and an exhibition about the building of the reservoir and local wildlife. Outside there are picnic sites and a children's play area.

Llwybr Natur Llyn Brenig
 Mae'r llwybr tua 1.5 milltir o hyd, ac wrth i chi fynd ar hyd y llwybr, mi ddewch chi o hyd i byst yn rhai o'r pwyntiau sydd o ddi-ddordeb. Rhai o'r uchafbwyntiau yw:

- Pyst 1 a 2 - Yn ymyl y postyn cynntaf gallwch weld ffosilau morol a ffurfiwyd o waddod mwd yn yr hen foroedd Silwraidd tua 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn ymyl y nant efallai y gwelwch Glêr Mai a Chlêr Cerrig yn ogystal â'r Brithyll Brown brodorol sy'n byw a bwydo yn Afon Brenig cyn mudo i'r llyn.



- Rhwng pyst 3 a 4 - Aiff yr adran hon o'r daith â chi drwy blanhigfa o Byrwydd Sitca. Edrychwch am adar coetir megis y Croesbig a Llinos Bengoch, neu Iwynog swil. Mae llawr y goedwig yn yr hydref yn fan gwych i ddod o hyd i ffynghau.

- Postyn 4 - Y lan yw'r lle i weld adar dŵr megis Hwyaen Wylt a Gwyach Gribog Fawr. Medrwhc hefyd weld tonnau ar wyneb y llyn wrth i Frithyll Seithliw godi i'r wyneb.

- Rhwng Postyn 5 a 6 - Yma rydych yn cerdded ar draws y mynydd ar garped o rug glas. Edrychwch am Rugiar Goch, Boncath yn cylchu uwch eich pen, neu flaen clustiau du Ysgyfarnog. Mae'r coed yma yn cynnwys ein coed crafal brodorol, gyda pherthi llus oddi tanodd.

Llyn Brenig nature trail
 The route is around 1.5 miles long, as you make your way around the trail you'll come across posts at points of interest, some of the highlights are:

- Posts 1 and 2 - Near the first post you can see marine fossils formed from mud deposits in ancient Silurian Seas some 400 million years ago. By the stream you may find Mayflies and Stoneflies as well as native Brown Trout that live and feed in the Afon Brenig before migrating to the lake.

- Between posts 3 and 4 - This section of the walk takes you through a Sitka Spruce plantation. Look out for woodland birds such as Crossbills and Redpolls, or a shy fox. In the autumn the forest floor is a great place to spot fungi.



- Post 4 - The shoreline is a place to glimpse waterfowl such as Mallard and Great Crested Grebe. You may also see rings of ripples on the lake surface as a Rainbow Trout sips down a sedge or Daddy-longlegs.

- Between Posts 5 and 6 - Here you are walking across the moor of on a carpet of Ling Heather. Look out for Red Grouse, a Buzzard circling overhead, or the black ear tips of a darting Hare. The trees here include our native Rowan (Mountain Ash), shrubby Bilberry grows beneath.



Alwriwch y map hwn o ddiwydion Ordnance Survey gyda chofrestru Ordnance Survey neu'r wefan Ordnance Survey. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Forestry Commission Wales 100025498 2009.

